**Swydd Ddisgrifiad**

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Yr Adran Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
## Diogelu'r Cyhoedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | **Uwch Swyddog Safonau Masnach** | | |
| **Rhif y Swydd** | **BG00884** | **Gradd** | **Graddfa 9** |
| **Canolfan** | **Ystwyth** | **Oriau Gwaith** | **37 Awr** |
| **Lwfans Defnyddiwr Car** | **Achlysurol** | **Datgeliad** | **Dim** |
| **Cyswllt** | **Steve Osborne** | **Diweddarwyd** | **Medi 2024** |

**<u>Prif Ddiben y Swydd</u>**

Yn atebol i'r: Rheolwr Tîm- Safonau Masnach a Thrwyddedu

Yn gyfrifol am: Orfodi holl ystod y swyddogaethau Safonau Masnach gyda rolau arbenigol yn nisgyblaethau Safonau Bwyd a Mesureg a chyfrifoldeb rheoli am y rhaglen arolygu ar gyfer Safonau Bwyd.

**<u>Prif Elfennau Atebolrwydd</u>**

1. Rheoli a datblygu rhaglen orfodi ar gyfer swyddogaethau Safonau Bwyd a Hylendid Bwyd Anifeiliaid.

2. Gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer Safonau Bwyd a gweithredu fel cyswllt yr adain â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

3. Cefnogi model cyflawni Gwent ar gyfer arolygiadau Hylendid Bwyd a gwneud gwaith fel y bo angen fel rhan o'r rhaglen ranbarthol hon.

4. Bod yn aelod o Grwpiau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Gwent Fwyaf a gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

5. Aros gyfuwch â'r holl ddatblygiadau deddfwriaethol ac eraill ym meysydd mesureg, bwyd ac amaethyddiaeth a rhoi diweddariadau i'r adain am newidiadau a'u heffaith, gan gynnwys gwneud argymhellion.

6. Asesu anghenion yr adain mewn perthynas â chynnal ei galluoedd i ddarparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd, bwyd anifeiliaid a mesureg a chyflwyno argymhellion priodol i'r Rheolwr Tîm.

7. Rheoli ymateb yr adain i rybuddion peryglon bwyd, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

8. Diwallu anghenion busnesau a defnyddwyr Blaenau Gwent a datblygu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

9. Adnabod anghenion hyfforddi yn nisgyblaethau mesureg, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid a chyflwyno argymhellion i'r Rheolwr Tîm.

10. Rheoli arian a neilltuwyd ar gyfer samplau bwyd ac amaethyddol.

11. Arwain, cefnogi a chynorthwyo mewn perthynas â hyfforddi staff.

12. Cynhyrchu adroddiadau statudol yn gymesur ag arbenigeddau'r rôl.

13. Caffael gwybodaeth am nodau, amcanion, polisïau, a rheoliadau a gweithdrefnau ariannol y Cyngor, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach

14. Sicrhau bod safleoedd a gaiff eu harolygu'n cael eu hasesu ac y pennir lefel eu risg yn unol â modelau cenedlaethol perthnasol a chynnal arolygiadau o fusnesau, a gwneud gwaith samplu ac arolygu yn ôl yr hyn a aseinir gan uwch swyddogion (gan gynnwys busnesau rhithwir ar y we).

15. Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau mewnol perthnasol a hefyd yn unol â gofynion cyfreithiol,

16. Cynnal a chadw offer samplu bwyd a bwyd anifeiliaid yr adain.

17. Asesu hyfywedd profi samplau'n fewnol a gwneud argymhellion ar gyfer rhoi hynny ar waith.

18. Cadw cofnodion o'r holl weithgareddau, yn unol â gweithdrefnau'r adain, gan sicrhau bod gwaith perthnasol yn cael ei fewnbynnu yng nghronfeydd data'r adain.

19. Cynnal asesiadau risg ar gyfer tasgau bwyd a bwyd anifeiliaid priodol a chynnal adolygiadau cyfnodol.

20. Rhoi ystyriaeth i faterion Iechyd a Diogelwch yn y gwaith a.y.b. fel y bo'n briodol.

21. Ymchwilio i droseddau honedig, paratoi adroddiadau ar gyfer erlyn a/neu gamau cyfreithiol i geisio gwaharddeb, gan roi tystiolaeth yn y llys, os oes angen.

22. Cynnal cysylltiadau da â'r cyhoedd a gwella rôl addysg defnyddwyr yr adain, trwy roi sgyrsiau, cyflwyniadau, paratoi datganiadau i'r wasg, fel y bo'n ofynnol.

23. Rhoi cyngor i ddefnyddwyr a/neu fusnesau lle y bo'n briodol i'r adain a gweithredu fel Swyddog cyngor defnyddwyr/ymyrryd ar sail rota pan fo angen

24. Cefnogi'r Gwasanaeth Defnyddwyr a weithredir gan Cyngor Ar Bopeth ac ymlynu wrth y cytundeb lefel gwasanaeth cyfatebol.

25. Cydymffurfio ag adrannau perthnasol o ddatganiad polisi'r Awdurdod ar Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gwaith.

26. Ymlynu wrth egwyddorion y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol a sicrhau ymrwymiad i arfer gwrthwahaniaethol.

27. Cyflawni dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd, fel a gyfarwyddir gan y Rheolwr Tîm.

# Manyleb y Person – Rheolwr Canol

## 1. Cymwysterau a phrofiad

| Cymwysterau/profiad perthnasol | Dull Asesu: Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Diploma Mewn Safonau Masnach (neu gymhwyster cyfwerth cydnabyddedig) | H | ✓ | | | |
| Cymhwyster archwilio ansawdd | D | ✓ | | | |
| Cymhwysedd Hylendid Bwyd | D | ✓ | | | |
| **Profiad arall** | | | | | |
| Profiad sylweddol ar ôl ennill cymhwyster DSM (neu gymhwyster cyfwerth) gan gynnwys Safonau Bwyd | H | ✓ | ✓ | | |
| Profiad fel Swyddog Arweiniol Safonau Bwyd | D | ✓ | ✓ | | |
| Arwain / rheoli tîm | D | ✓ | ✓ | | |
| **Gwybodaeth/Sgiliau** | | | | | |
| Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu rhagorol | H | ✓ | ✓ | | |
| Gallu i drefnu eich llwyth gwaith eich hun i gwrdd â therfynau amser a bennir gan oruchwylwyr a rheolwyr | H | ✓ | | | |
| Profiad o ddefnyddio Flare neu gronfa ddata TG debyg ar gyfer cofnodi | D | ✓ | ✓ | | |
| Sgiliau TG da | D | ✓ | | | |

| 2. Gofynion Arbennig | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Bod yn barod i weithio'r tu allan i oriau swyddfa arferol | H | |
| Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd at ddibenion gwaith | H | |

3. **Cymwyseddau Personol**

Ystyrir bod yr holl gymwyseddau'n hanfodol, er y cydnabyddir y gall rhai gael eu cyflawni dros gyfnod o amser. Mae disgwyl i'r holl gyflogeion ddatblygu eu cymwyseddau'n barhaus yn unol â'r fframwaith priodol.
Yn ychwanegol at y rhai a asesir fel rhan o'r broses recriwtio, bydd cymwyseddau'n cael eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedi hynny trwy gynllun coetsio'r Awdurdod.

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Arwain Pobl** | Yn gosod y safon arwain ar gyfer y gwasanaeth | | | | ✓ |
| | Yn darparu cyfeiriad a nodau eglur ar gyfer y gwasanaeth | | | | ✓ |
| | Yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol ac yn atebol am eich gweithredoedd | | | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwreiddio yn y gwasanaeth | | | | ✓ |
| | Yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniadau a chyflawniadau pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn herio ymddygiad amhriodol | | | | ✓ |

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Cyfleu'r Weledigaeth** | Yn trosi'r weledigaeth yn amcanion gweithredol | | | | ✓ |
| | Yn datblygu amcanion a strategaethau hirdymor ar gyfer eich maes gwasanaeth eich hun i wireddu'r weledigaeth | | | | ✓ |
| | Yn hyrwyddo'r weledigaeth yn weithredol i eraill | | | | ✓ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Yn sicrhau bod eraill yn deall sut y mae eu rôl yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Hwyluso Perfformiad Uchel a Chanlyniadau** | Yn ymrwymedig i wella eich perfformiad eich hun a pherfformiad eraill yn barhaus | | | | ✓ |
| | Yn pennu targedau a blaenoriaethau perfformiad uchelgeisiol ar eich cyfer eich hun ac ar gyfer eraill | | | | ✓ |
| | Yn rhoi adborth rheolaidd, adeiladol ar berfformiad y tîm/unigolion | | | | ✓ |
| | Yn cymell eraill i gyflawni a gwella perfformiad | | | | ✓ |
| | Yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiant | | | | ✓ |
| | Yn herio perfformiad gwael yn briodol | | | | ✓ |
| | Yn chwilio am gyfleoedd dysgu o ganlyniadau | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Cynyddu Potensial i'r Eithaf** | Yn hybu a datblygu atebolrwydd personol mewn eraill | | | | ✓ |
| | Yn annog eraill i feddwl drostynt eu hunain | | | | ✓ |
| | Yn hybu'r arfer o gymryd risgiau ac yn cefnogi'n briodol | | | | ✓ |
| | Yn datblygu sgiliau, profiad ac uchelgais eraill ar bob lefel i wella hyblygrwydd gwasanaethau | | | | ✓ |
| | Yn hybu datblygiad ynoch chi eich hun ac mewn eraill | | | | ✓ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Yn cefnogi a hyfforddi eraill yn eu meysydd arbenigedd eu hunain | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Cyfathrebu** | Yn hybu diwylliant o gyfathrebu agored | | | | ✓ |
| | Yn cyfathrebu'n effeithiol, gan ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau, gydag ystod eang o bobl | | | | ✓ |
| | Yn creu a datblygu cyfleoedd rhwydweithio i ddylanwadu | | | | ✓ |
| | Yn gwrando'n weithredol ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn gwirio eich dealltwriaeth eich hun a dealltwriaeth eraill | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Gwneud Penderfyniadau Gwybodus** | Yn ystyried goblygiadau penderfyniadau arfaethedig | | | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod penderfyniadau'n cysylltu â gwella perfformiad yn barhaus | | | | ✓ |
| | Yn deall bod datrys problemau'n rhan o'r broses wella | | | | ✓ |
| | Yn meddu ar yr hyder i wneud penderfyniadau uchelgeisiol, anodd neu amhoblogaidd | | | | ✓ |
| | Yn gallu cyfiawnhau ac egluro penderfyniadau | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Cydweithio** | Yn deall partneriaethau yng nghyd-destun y "darlun mawr" | | | | ✓ |
| | Yn hybu ac yn cyfrannu at bartneriaethau amlasiantaeth i wella gwasanaethau'n barhaus ar gyfer y dinesydd | | | | ✓ |
| | Yn rhwydweithio'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol | | | | ✓ |
| | Yn adnabod arbenigedd eraill | | | | ✓ |
| | Yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | | | | ✓ |
| | Yn ceisio'r bobl fwyaf priodol i gyfrannu at weithio mewn partneriaeth, o fewn y gwasanaeth a'r tu allan iddo | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Hybu Diwylliant sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion** | Yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniadau gan y gymuned i bennu a chyflawni gwasanaethau sy'n gwella'n barhaus | | | | ✓ |
| | Yn hybu ac yn datblygu diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion sy'n gwella'n barhaus yn y gwasanaeth | | | | ✓ |
| | Yn cyfrannu at fentrau sy'n galluogi ymgynghori ac adborth rheolaidd gan ddinasyddion ar ansawdd a phriodoldeb y gwasanaeth a ddarperir | | | | ✓ |
| | Ym ymgysylltu'n briodol ac yn barchus â'r gymuned | | | | ✓ |
| | Yn llysgennad ar ran y sefydliad a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Gweithio Gyda Chynghorwyr** | Yn sefydlu ac yn mynd ati'n barhaus i wella rhyngweithio cadarnhaol a phriodol gyda'r holl Gynghorwyr | | | | ✓ |
| | Yn rhoi cyngor proffesiynol amserol, adeiladol o ansawdd da i gynorthwyo'r broses benderfynu wleidyddol | | | | ✓ |
| | Yn ymlynu'n gadarnhaol wrth y protocolau sy'n berthnasol i'r berthynas wleidyddol | | | | ✓ |
| | Yn hyderus i gyfeirio ymholiadau at eraill pan fo'n briodol | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Testun | Cymwyseddau | Ffurf. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad, a.y.b. (rhowch fanylion) | Cyfnod Prawf/ Coetsio Perfformiad |
| **Gwthio'r Ffiniau** | Yn mynd ati'n rheolaidd ac yn adeiladol i herio'r drefn fel ag y mae | | | | ✓ |
| | Yn meddwl yn rhagweithiol sut y bydd newid posibl yn effeithio ar y dinesydd | | | | ✓ |
| | Yn manteisio ar botensial arloesol a chreadigol eraill | | | | ✓ |
| | Yn ystyried gwahanol ddulliau/ffyrdd o weithredu | | | | ✓ |
| | Yn annog eraill i awgrymu syniadau newydd | | | | ✓ |
| | Yn cefnogi ac yn datblygu syniadau pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn chwilio'n greadigol y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad am syniadau newydd ac yn mynd ati'n frwd i rannu arfer da | | | | ✓ |